# HELP I OSOD EICH EIDDO

MONMOUTHSHIRE LETTING SERVICE

## Cynllun Prydlesu Preifat

Mae Gwasanaeth Gosod Eiddo Sir Fynwy yn gweithio gyda landlordiaid Preifat a pherchnogion eiddo i ddarparu cartrefi o ansawdd dda yn Sir Fynwy. Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys cynllun prydlesu i warantu incwm i landlordiaid Preifat a rhoi sicrwydd.

## Sut mae'n gweithio

Bydd Gwasanaeth Gosod Eiddo Sir Fynwy yn arwyddo'r les yn enw'r Cyngor ac yn talu am bob bil cyfleustod a threth Cyngor. Bydd gan eiddo delfrydol wres canolog (nwy os yn bosib), carpedi, gorchuddion llawr, coginydd, llenni neu fleinds, larymau mwg, ffitiadau golau a bod mewn cyflwr addurniadol da. Yn ddelfrydol bydd eiddo heb ei ddodrefnu. Fodd bynnag, gellir ystyried eiddo wedi'i ddodrefnu'n rhannol neu wedi'i ddodrefnu'n llawn. Mae angen fflatiau 1,2,3 a 4 ystafell wely, tai neu fyngalos ym mhob ardal yn Sir Fynwy.

Bydd Gwasanaeth Gosod Eiddo Sir Fynwy yn talu cyfraddau cystadleuol am eich eiddo, yn ddibynnol ar y lleoliad, y cyflwr, a'r galw. Mae'r rhenti hyn yn cael eu gwarantu hyd yn oed os nad yw eich eiddo'n wag felly nid oes angen yswiriant gwarant rhent costus.

Byddem yn fwy na hapus i'ch cyfarfod i weld eich eiddo (heb rwymedigaeth) a darparu esboniad llawn o delerau'r Cynllun Prydlesu Preifat.

## Beth all y tîm ei wneud i chi?

Gall Gwasanaeth Gosod Eiddo Sir Fynwy gynnig gwasanaeth rheoli eiddo a deiliad contract o ansawdd uchel. Fel ein partner busnes yn y cynllun prydlesu gall Gwasanaeth Gosod Eiddo Sir Fynwy hefyd gynnig y canlynol i chi:

- Rhenti cystadleuol yn cael eu talu bob chwarter ymlaen llaw
- Rhent gwarantedig hyd yn oed os nad yw'r eiddo'n wag
- Rhestr eiddo ysgrifenedig lawn a ffotograffau wedi'u tynnu o'r eiddo cyn ei feddiannu
- Archwiliadau rheolaidd o'r eiddo gan ein tîm tai lleol
- Gwarantu dychwelyd yr eiddo yn ei gyflwr gwreiddiol (gan ystyried rhywfaint o golled oherwydd traul)
- Gwarant o feddiant gwag ar ddiwedd y brydles
- Prydles adnewyddadwy (yn amodol ar y cyllid a'r galw sydd ar gael).



monmouthshire
sir fynwy

**Am ragor o wybodaeth: Ffôn: 01873 735426**
**E-bost: MLS@monmouthshire.gov.uk**